

Gadael rhodd mewn ewyllys



Mae llawer o bobl yn ystyried rhoi i elusennau wrth lunio eu hewyllys. Gallai hyn fod yn rhodd o swm penodol i elusen benodol neu gellir sefydlu rhywbeth mwy hirdymor sy'n galluogi'r unigolyn sy'n gadael y rhodd i nodi sut, ble ac ar beth y dylid gwario ei rodd.

Bydd rhoi drwy'r Sefydliad Cymunedol Cymru yn eich ewyllys, p'un a yw'n gymynrodd tra byddwch yn fyw neu ar ôl i chi farw, yn sicrhau y bydd eich arian yn mynd i gymunedau Cymru yn uniongyrchol.

Gallwn weithio gyda chi i lunio cynllun ar gyfer gadael rhodd yn eich ewyllys sy'n cyfateb i'ch dyheadau. Gallai hyn olygu sefydlu cronfa o dan reolaeth y rhoddwr at ddiben penodol mewn ardal ddaearyddol o'ch dewis neu, os hoffech roi yn fwy cyffredinol, gallech adael rhodd gyffredinol sy'n cefnogi prosiectau cymunedol ar hyd a lled Cymru.



Mae yna ychydig ffordd y gallwch adael rhodd yn eich ewyllys:

Cronfa waddol

Cronfa waddol lle y gallwch nodi sut, pryd ac ar beth yr hoffech i'ch rhodd gael ei gwario. Gan mai cronfa waddol yw hon, caiff y swm ei fuddsoddi gan sicrhau bod y rhodd rydych yn ei gadael yn parhau i roi ac yn parhau i fod o fudd i bobl a chymunedau ymhellach ar ôl i chi farw.

Cronfa effaith uniongyrchol

Rhodd lle y gallwch nodi sut, ble ac ar beth yr hoffech i'ch rhodd gael ei gwario a byddwn yn gweinyddu'r grantiau yn unol â'ch dymuniadau nes bydd yr arian yn dod i ben.

Gallwn eich helpu i benderfynu beth yw'r opsiwn cywir i chi a'ch cefnogi i gyflawni eich dymuniadau.



Am fwy o wybodaeth cyslltwch Katy Hales, Cyfarwyddwr Dyngarol,
trwy e-bostio katy@communityfoundationwales.org.uk neu ffonwch 02920 379580